HSE

Yr Awdurdod Gweithredol
Iechyd a Diogelwch

Sut olwg sydd ar fferm dda

Bydd yr arweiniad hwn yn eich helpu chi a ffermwyr eraill i ddeall risgiau cyffredin i iechyd a diogelwch ar eich fferm.

Trwy ddilyn yr arweiniad hwn, byddwch chi'n gwybod beth y gallwch chi ei wneud i reoli risgiau cyffredin. Byddwch chi'n fwy tebygol o gydymffurfio â'r gyfraith a deall sut olwg sydd ar fferm dda. Bydd hyn yn helpu i atal damweiniau a salwch ar eich fferm.

Mae arolygwyr Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn edrych ar y testunau yr ymdrinnir â hwy yn yr arweiniad hwn pan fyddant yn ymweld â'ch fferm i wirio bod risgiau yn cael eu rheoli yn y meysydd hyn.

Cerbydau a pheiriannau

Ymddygiad gyrrwr

- Mae ein gyrwyr wedi derbyn hyfforddiant ar bob cerbyd y maen nhw'n ei ddefnyddio
- Cyn iddynt fynd allan neu oddi ar y cerbyd maen nhw'n dilyn y drefn syml i stopio'n ddiogel:
  - Cynnau'r brêc-llaw
  - Gerau yn niwtral
  - Injan wedi'i ddiffodd a'r allwedd wedi'i dynnu
- Rydym yn dilyn y drefn stopio'n ddiogel os daw rhywun at ein cerbyd
- Mae ein gyrwyr bob amser yn troi i fyny wrth weithio ar draws llethr ac yn disgyn yn syth i lawr y graddiant lleiaf
- Rydym yn cadw ein drysau ar gau wrth yrru ac yn gwisgo ein gwregysau
- Rydym yn gwirio i sicrhau bod llwythi yn sefydlog, yn ddiogel ac o fewn cyfyngiadau pwysau perthnasol
- Rydym yn osgoi bacio lle bynnag fo'n bosibl
- Dim ond teithwyr sydd dros 13 oed ac sy'n eistedd ar sedd teithiwr y bydd ein gyrwyr yn eu cludo

Peiriannau Telesgopig a thryciau codi

- Mae ein gweithredwyr wedi derbyn hyfforddiant gan hyfforddwr cymwys ac wedi pasio prawf ymarferol a theori
- Mae cyfarpar sy'n codi llwythi dros neu yn agos at ardal lle y mae pobl yn cael ei archwilio'n drylwyr gan berson cymwys o leiaf bob 12 mis, oni bai ei fod yn iau na blwydd oed.

- Mae ein hategolion codi (megis cadwyni, slingiau a bachau), ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir i godi pobl, yn cael eu harchwilio'n drylwyr o leiaf bob chwe mis

ATVs

- Mae gyrwyr beiciau cwad ac ATVs eraill wedi'u hyfforddi a'u hasesu gan hyfforddwr cymwys
- Rydym yn gwirio gwasgedd teiars ac, os oes angen, yn eu haddasu i fodloni argymhellion y gwneuthurwr er mwyn gallu'u trin yn dda
- Mae ein gyrwyr bob amser yn gwisgo helmedi, fel arfer un ATV ond weithiau defnyddir helmedi wedi'u cynllunio ar gyfer beiciau modur, marchogaeth ceffylau, beicio neu fynydda
- Rydym yn gwirio'r breciau cyn dechrau gweithio a sicrhau bod y sbardun yn gweithredu'n llyfn ym mhob safle llywio

Cerddwyr

- Mae gennym lwybrau ar wahân ar gyfer cerbydau a cherddwyr
- Nid ydym byth yn ceisio mowntio neu ddisgyn oddi ar beiriant sy'n symud
- Mae cerddwyr yn gwisgo dillad gwelededd uchel ac rydym yn cadw buarthau ac ardaloedd eraill wedi'u goleuo'n dda yn ystod oriau gwaith

Cynnal a Chadw

- Mae ein breciau, drychau, camerâu bacio, strwythurau cab a grisiau mynediad yn cael eu cadw mewn cyflwr da
- Mae ein ffenestri, drychau a chamerâu yn ddigon glân i yrrwr weld eu llwybr ac unrhyw beryglon
- Dim ond pan fydd yr holl bŵer wedi'i ynysu y byddwn yn gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweiriadau, yn enwedig clirio rhwystrau
- Rydym yn gwirio ein gwarchodwyr PTO cyn dechrau gweithio ac yn disodli rhai sydd wedi'u difrodi cyn eu defnyddio
- Mae unrhyw beiriant sydd angen gwaith i'w wneud yn ddiogel yn cael ei dynnu allan o ddefnydd yn ddiogel - rydym yn ei analluogi neu'n ei ynysu ac yn atodi hysbysiad rhybudd, fel nad oes modd ei weithredu'n anfwriadol
- Rydym yn cynnal cabiau, cyrff a threlars pan fyddwn yn gweithio oddi tanynt fel nad ydynt yn dibynnu ar hydrolig neu niwmateg

Dysgwch fwy yn:
www.hse.gov.uk/agriculture/topics/machinery/farm-vehicles-1.htm

Disgyn o uchder a gwrthrychau yn disgyn

Cyfarpar mynediad

- Dim ond ar gyfer gwaith am gyfnodau byr y byddwn yn defnyddio ysgolion ac rydym yn eu cadw mewn cyflwr da
- Nid ydym yn defnyddio llwyfannau gweithio (“cewyll dynion”) ynghlwm wrth beiriannau telesgopig i godi pobl ar gyfer tasgau rheolaidd
- Mae pob un sy’n codi sgaffaldau, gan gynnwys tyrau, neu’n gweithredu MEWP (craen casglu ffrwythau/cherry pickers neu lifftiau siswrn/scissor lifts) ar ein fferm, wedi derbyn hyfforddiant
- Rydym yn archwilio cyfarpar mynediad cyn i ni ei ddefnyddio, ac mae MEWPs yn cael eu harchwilio’n drylwyr o leiaf bob chwe mis

Gweithio ar doeon bregus

- Rydym yn osgoi gwneud gwaith ar y to ein hunain. Rydym yn defnyddio contractwyr cymwys gyda’r wybodaeth, y sgiliau, y cyfarpar a’r profiad i weithio’n ddiogel ar uchder ar adeiladau
- Ar achlysuron prin iawn y byddwn ni’n gwneud gwaith ar doeau rydym yn sicrhau ein bod wedi derbyn hyfforddiant perthnasol ac yn gweithio o dan y to gan ddefnyddio llwyfan gwaith addas, megis sgaffald twr. Pan na fydd hyn yn bosib, defnyddiwn MEWP a gweithio o fewn y fasged heb sefyll ar y to ei hun. Os nad yw hyn yn bosibl, fel dewis olaf, mae’n bosibl y byddwn yn cael mynediad at y to bregus ond dim ond ar ôl gosod amddiffyniad ymyl perimedr a byrddau llwyfan wedi’u gosod gyda rheiliau gwarchod. Mae hyn yn lledaenu’r llwyth a dim ond ar y llwyfan hwn y byddwn yn gweithio

Byrnau a threlars

- Rydym yn stacio byrnau ar dir gwastad, cadarn a sych, gan eu hadeiladu i fyny gan ddefnyddio grisiau byrnau
- Mae ein byrnau wedi cydgloi, gyda'r rhai cryfaf yn cael eu defnyddio o amgylch yr ymylon, ac rydym yn cadw pobl yn glir wrth ddadlwytho neu dynnu'r pentwr i lawr
- Mae ein holl fyrnau mawr yn cael eu symud gan ddefnyddio cyfarpar mecanyddol
- Nid ydym yn stacio byrnau crwn ar eu pennau nac yn gweithio wrth ymyl pentyrrau neu welyau trelars

Dysgwch fwy yn:
www.hse.gov.uk/agriculture/topics/falls.htm

Plant

- Mae plant yn cael eu goruchwylio bob amser i sicrhau eu bod yn cael eu cadw allan o'n gweithle gan nad oes hawl ganddynt i gael mynediad i'r iard ac ardaloedd gwaith eraill
- Mae ein gweithwyr yn rhoi'r gorau i weithio ar unwaith os yw plant nad ydynt o dan oruchwyliaeth yn ymddangos yn eu hardal waith ac maen nhw'n mynd â'r plentyn i rywle diogel
- Mae ein lagŵn a chronfeydd dŵr wedi'u hamgylchynu gan ffensys neu waliau sydd o leiaf 1.3 metr o uchder
- Bydd plant yn cael gwylio gwaith fferm os nad yw'r dasg yn gynhenid beryglus, nid y person sy'n goruchwylio'r plentyn yw'r un person sy'n gwneud y dasg ac mae'r plentyn yn cael ei gadw mewn man diogel
- Gwyddom ei bod hi'n anghyfreithlon ac felly nid ydym yn gadael i blant dan 13 oed reidio ar, neu yrru, cerbydau fferm megis tractorau ac ATVs
- Mae ein cynhaeafwyr, lledaenwyr, peiriannau wedi'u gyrru gan bŵer, rhannau sy'n cysylltu â phridd, ATVs i oedolion a pheiriannau hunan-yrru eraill yn cael eu gweithredu gan bobl dros 16

Dysgwch fwy yn:
www.hse.gov.uk/agriculture/topics/children.htm

Llinellau pŵer uwchben (OHPLs)

- Rydym wedi cysylltu â'n gweithredwr rhwydwaith dosbarthu (DNO) i adnabod lleoliad pob un o'r llinellau pŵer uwchben ar ein fferm a gwyddom yr uchderau gweithio uchaf o dan bob rhychwant
- Rydym wedi marcio llwybrau'r llinell a'r uchder gweithio uchaf ar ein map fferm
- Mae gan weithwyr a chontractwyr gopïau o'n map fferm ac rydym yn sicrhau eu bod yn eu deall
- Nid ydym yn gwneud unrhyw un o'r isod o fewn pellter llorweddol o 10 metr i'r llinellau pŵer uwchben:
  - yn pentyrru byrnau, bagiau, blychau neu ddeunyddiau eraill
  - yn codi strwythurau dros dro megis twnelau polythen
  - yn gweithredu peiriannau telesgopig neu'n gweithio ar dop cynaeafydd neu beiriannau uchel eraill
  - yn plygu/dad-blygu trawstiau neu'n tipio trelars a lorïau
  - yn symud ysgolion, pibellau neu sgaffaldau
- Os yw presenoldeb llinellau pŵer uwchben yn broblem, rydym yn cysylltu â'n DNO i weld a oes modd iddynt eu hail-lwybro, gosod ceblau dan ddaear neu ynysu'r pŵer
-

Dysgwch fwy yn:
www.hse.gov.uk/agriculture/topics/electricity.htm

Gwartheg

Trin

- Rydym yn gwneud ein tasgau stoc ar anifeiliaid ataliedig gan ddefnyddio cyfleusterau trin da
- Mae ein gweithwyr mewn iechyd da, yn ffit ac â'r gallu corfforol i weithio gyda da byw
- Mae drysau mewn rhedfa yn cael eu gweithredu o'r ochr weithio fel nad oes yn rhaid i ni ymestyn draw i gau'r giât
- Nid ydym yn gweithio yn y wasgfa os oes anifail rhydd yn aros yn y rhedfa y tu ôl
- Mae ein gwasgfa wedi'i gosod â giât flaen sy'n cloi ei hun, iŵc, rheilen ffolen a bar. Mae'n gallu cyfyngu'n ddiogel ar ein hanifeiliaid beth bynnag yw eu maint
- Mae'r teirw yn cael eu modrwyo yn 10 mis oed ac rydym yn defnyddio cymhorthion trin megis polion a chebystrau
- Ni fyddwn byth yn mynd mewn i loc pan fydd tarw yn rhydd neu fuwch gyda llo oni bai bod yr anifeiliaid wedi'u ffrwyno neu'u gwahanu

Caeau gyda mynediad i'r cyhoedd

- Nid ydym yn cadw teirw o fridiau llaeth cydnabyddedig mewn caeau sy'n cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus
- Lle bynnag fo'n bosibl, rydym yn dewis caeau heb hawliau tramwy cyhoeddus pan fydd gwartheg yn bwrw lloi neu pan fydd lloi bach
- Pan na fyddwn ni wedi gallu gwneud hyn, rydym yn cymryd rhagofalon i wahanu'r anifeiliaid o'r llwybr a gosod arwyddion wrth fynedfeydd y cae yn cynghori bod tarw eidion neu wartheg gyda lloi yn bresennol
- Rydym y gwirio ein holl wartheg am achosion o ymddygiad ymosodol, megis salwch, o leiaf unwaith y diwrnod ac yn gwahanu unrhyw anifeiliaid sy'n arddangos ymddygiad ymosodol

Dysgwch fwy yn:
www.hse.gov.uk/agriculture/topics/livestock.htm

Boddi a mygu

- Rydym yn cadw allan o adeiladau sy'n gysylltiedig â'n system storio slyri wrth gymysgu neu bwmpio ac yn gadael yr adeiladau wedi'u hawyru am o leiaf 30 munud cyn i ni fynd yn ôl i mewn
- Nid ydym byth yn sefyll dros bwyntiau cymysgu slyri, pyllau derbyn neu slatiau, hyd yn oed y rhai awyr agored
- Pan nad oes dewis amgen i weithio y tu fewn i system storio slyri neu seilo grawn/bwyd wedi'i selio, rydym yn defnyddio contractwyr arbenigol sy'n gymwys wrth weithio mewn mannau cyfyng

Dysgwch fwy yn:
www.hse.gov.uk/pubns/ais26.pdf

Asbestos

- Rydym wedi adnabod a labelu rhannau o'n hadeiladau sydd â deunydd sy'n cynnwys asbestos, neu y ceir amheuaeth bod deunydd sy'n cynnwys asbestos (ACMau)
- Rydym wedi asesu cyflwr ein holl ACMau ar ein fferm
- Rydym wedi defnyddio'r asesiad hwn i gynhyrchu ein cynllun rheoli asbestos, sy'n cynnwys brasluniau o le mae'r ACMau ac sy'n cofnodi beth y byddwn yn ei wneud â hwy
- Mae asbestos heb ei ddifrodi, sydd wedi'i selio'n dda yn cael ei adael yn ddigyffwrdd. Mae ACMau wedi difrodi wedi'u symud gan y rheini sydd wedi'u hyfforddi i weithio gyda'r math perthnasol o asbestos ac, yn ôl yr angen, wedi'u trwyddedu gan HSE
- Mae gweithwyr a chontractwyr wedi'u briffio ar gynnwys y cynllun rheoli asbestos i'w hysbysu o bresenoldeb asbestos

Dysgwch fwy yn:
www.hse.gov.uk/agriculture/topics/building.htm

Symud llwythi â llaw

Mecaneiddiad

- Mae ein gweithwyr bob amser yn ceisio osgoi codi a chario a symudiadau ailadroddus trwy weld a oes modd gwneud y dasg â pheiriant
- Rydym wedi gosod system trin bwyd pibell sy'n cynnwys biniau storio swmp er mwyn dileu'r angen i godi a chario
- Dim ond gyda pheiriant y gellir symud byrnau mawr a bagiau swmp yr ydym yn eu defnyddio

Mesurau gostwng risg

- Mae ein gweithwyr yn ymwybodol bod risg o anaf yn uwch pan fydd llwythi:
  - yn pwyso mwy na 25kg
  - yn anodd cael gafael arnynt, eu trin neu eu symud
  - yn cael eu codi neu'u gostwng yn aml neu'u cludo yn bell
  - yn gorfod cael eu codi uwchlaw uchder ysgwydd, i fyny o'r llawr neu'n golygu troelli
- Gan wybod y risgiau hyn, rydym yn defnyddio cymhorthion mecanyddol a chodi, cewyll troi defaid, blociau bwyd llai a bagiau bwyd ysgafnach ac yn hyfforddi ein gweithwyr
- Ar gyfer gwaith ailadroddus ar linellau graddio, byrddau archwilio ac mewn ardaloedd prosesu, rydym yn defnyddio seddi a byrddau y gellir addasu eu huchder, ac mae staff yn cylchdroi rhwng tasgau ac yn cymryd egwyl fer aml

Dysgwch fwy yn:
www.hse.gov.uk/agriculture/topics/manual-handling.htm

Problemau ar y frest a chlefyd ar yr ysgyfaint

Dewis deunyddiau

- Rydym yn defnyddio'r cemegau lleiaf niweidiol sydd ar gael
- Rydym yn prynu deunydd ar ffurf gronynnau neu belet i gadw'r llwch i'r isafswm

Dulliau gwaith

- Rydym yn amgáu ffynonellau llwch neu chwistrelliad os yw'n bosibl
- Mae gollyngiadau sych mewn adeiladau yn cael eu hwfro neu rai gwlyb yn cael eu glanhau, yn hytrach na'u brwsio
- Defnyddir gwellt glân, sych sy'n rhydd rhag llwydni mewn siediau wedi'u hawyru'n dda
- Rydym yn gwasgaru gwellt yn fecanyddol pa bryd bynnag y mae hyn yn ymarferol
- Rydym yn defnyddio goleuadau isel mewn siediau dofednod i gadw adar yn dawel

Rheoli dinoethiad

- Mae hidlwyr mewn tractorau a chabiau cerbydau eraill yn cael eu cynnal yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchydd
- Rydym yn dewis cyfarpar diogelu resbiradol (RPE) tynn ar sail prawf ffit, gan sicrhau eu bod yn cael eu gwisgo heb flew wyneb a'u storio mewn man glân a sych
- Mae gan ein RPE y math hidlo cywir gan ddibynnu a ydym eisiau cael ein diogelu rhag gronynnau llwch neu anwedd

Dysgwch fwy yn: www.hse.gov.uk/asthma/agriculture.htm

Clefydau Anifeiliaid

- Mae ein holl weithwyr yn golchi gyda sebon a dŵr ac yn sychu eu dwylo cyn bwyta, yfed neu ysmygu
- Mae'r holl doriadau a chrafiadau yn cael eu golchi, eu sychu a'u gorchuddio ar unwaith gyda dresin dal dŵr
- Nid ydym yn glanhau adeiladau a chyfarpar gydag aer cywasgedig ond rydym yn eu diheintio yn rheolaidd
- Mae menig a ffedog dal dŵr yn cael eu gwisgo wrth drin deunydd a allai fod wedi'i heintio megis cynnyrch geni, tail neu garthion
- Os ceir achosion posibl neu wedi'u cadarnhau o glefydau anifeiliaid megis ffliw adar, rydym yn gwisgo RPE, cyfanwisgoedd diogelu, esgidiau ac amddiffyniad llygaid yn ychwanegol at ein menig

Dysgwch fwy yn:
www.hse.gov.uk/agriculture/topics/zoonoses.htm

Sŵn

Rydym yn ystyried allyriadau sŵn wrth brynu cyfarpar

- Rydym yn cadw ffenestri a drysau cab ar gau
- Mae peiriannau a phrosesau swnllyd yn cael eu hamgáu neu'u rhoi mewn ystafelloedd ar wahân
- Mae ein gwaith cynnal a chadw yn mynd i'r afael â phaneli, rhannau anghytbwys a mowntin wedi'i ddifrodi
- Mae amddiffyniad clustiau yn cael ei wisgo bob amser pan fydd y dinoethiad i sŵn yn uwch na 85 dB ac rydym yn annog ei ddefnyddio pan fydd sŵn yn uwch na 80 dB

Dysgwch fwy ar:
www.hse.gov.uk/agriculture/topics/noise.htm

Plaladdwyr

Storio a chludo

- Mae ein plaladdwyr yn cael eu cadw yn eu cynhwysyddion gwreiddiol mewn storfa a all ddal unrhyw ollyngiadau a chwympiadau
- Mae'r storfa wedi'i gwneud o ddeunydd nad yw'n hylosg ac yn cael ei chloi pan na fydd yn cael ei defnyddio
- Rydym yn cludo plaladdwyr mewn cabinet wedi'i fowntio'n allanol, ar drelar neu mewn adran llwyth ar wahân, ond byth y tu fewn i'r cab
- Mae storfa'r cerbyd yn cael ei chloi pa bryd bynnag y bydd allan o'n golwg

Cymhwyso

- Dim ond plaladdwyr wedi'u hawdurdodi gan HSE y byddwn yn eu defnyddio ac yn dilyn cyfarwyddiadau ar labeli ac ar daflenni data diogelwch
- Rydym yn gwirio'r rhagolygon tywydd wrth ystyried chwistrellu ac ni fyddwn yn ei gymhwyso os yw'n debyg o ddrifftio o'r ardal darged
- Nid oes unrhyw un yn bwyta, yn yfed nac yn ysmygu wrth gymhwyso plaladdwyr ac rydym yn golchi ein dwylo gyda sebon a dŵr cyn cymryd egwyl
- Rydym yn glanhau'r holl gyfarpar, y tu fewn a'r tu allan, cyn gadael yr ardal drin
- Rydym yn cadw cofnodion o'r holl blaladdwyr yr ydym yn eu defnyddio

Dysgwch fwy yn:
www.hse.gov.uk/agriculture/topics/pesticides.htm

Llifiau Cadwyn

Hyfforddiant

- Mae pawb sy'n defnyddio llifiau cadwyn i weithio ar goed neu ynddynt wedi derbyn tystysgrif cymhwyster neu drwydded i ymarfer. Maen nhw'n mynychu cyrsiau diweddaru o leiaf bob tair blynedd
- Mae gweithwyr sy'n defnyddio llifiau cadwyn ar gyfer unrhyw waith arall wedi derbyn hyfforddiant addas gan hyfforddwr cymwys ar sut i'w gweithredu a'u cynnal

Lleoliad

- Dim ond pan fydd llinellau pŵer uwchben (OHPLau) o leiaf hyd ddwy goeden i ffwrdd y byddwn yn cwympo coed ac nid ydym yn ymgymryd â mathau eraill o waith coed, megis tynnu canghennau, o fewn 10 metr i OHPLau
- Ar gyfer gwaith o fewn y pellterau hyn, rydym yn defnyddio llawfeddyg coed cymwys sy'n trafod gyda'r gweithredwr rhwydwaith dosbarthu lleol
- Mae gweithredwyr llifiau cadwyn yn defnyddio troedleoedd diogel, yn gwybod eu llwybr dianc ac ni chaniateir neb o fewn dau hyd goeden i goeden yn cael ei chwympo

Llifiau a dillad diogelu

- Mae ein llifiau wedi'u cynnal yn dda ac mae daliwr cadwyn, brêc cadwyn gyfun a gwarchodydd llaw blaen, tawelydd a mowntiau gwrth-ddirgrynu wedi'u gosod arnynt

- Mae gan y cadwyni nodweddion ôl-gic isel ac yn finiog, gyda'r tensiwn cywir ac wedi'u hiro
- Mae'r holl weithredwyr yn gwisgo helmed ddiogel, amddiffyniad clustiau, amddiffyniad llygaid a menig
- Mae gweithredwyr hefyd yn gwisgo dillad diogelu o amgylch eu coesau a'u traed, fel arfer trowsus llif gadwyn gyda diogelwch cyffredinol ac esgidiau llif gadwyn

Dysgwch fwy yn:
www.hse.gov.uk/agriculture/forestry.htm

Systemau Trydanol

- Mae ein gosodiadau trydanol yn ein hadeiladau yn cael eu harolygu a'u profi gan drydanwr, sy'n ymgymryd â'r holl atgyweiriadau
- Rydym yn cadw gorchuddion cyfarpar trydanol ar gau. Rydym yn ynysu ac yn atgyweirio neu'n disodli ceblau wedi difrodi
- Mae gennym RCD wedi'i gysylltu â'n golchydd pwysedd ac rydym yn ei brofi bob amser cyn ei ddefnyddio
- Mae'r rhan fwyaf o'r ceblau sy'n gysylltiedig â'n peiriannau ag arfwisg, er mae rhai wedi'u gorchuddio â rwber trwchus, hyblyg neu neopren, neu wedi'u gosod gyda chwndid, ac mae gan bob un gysylltiad daear da

Dysgwch fwy yn:
www.hse.gov.uk/agriculture/topics/electricity.htm

HSE

Yr Awdurdod Gweithredol
Iechyd a Diogelwch

Sut olwg sydd ar fferm dda

Am arweiniad pellach ar iechyd a diogelwch o fewn amaethyddiaeth ewch i www.hse.gov.uk/agriculture